DIWEDDARIAD AR
GYNHYRCHU TELEDU YNG NGHYMRU
HAF 2023

Haf prysur yn cynrychioli sector annibynnol Cymru yn San Steffan

TAC yn briffio Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar Channel 4

Cyflwynodd TAC farn sector cynhyrchu teledu Cymru ar Channel 4 i'r Gwir Anrhydeddus Lucy Frazer KC AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn cyfarfod ford gron ym mis Mehefin, yn ogystal â briffio Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a rhoi barn ysgrifenedig i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae'r Mesur Cyfryngau Drafft yn cynnwys darpariaethau i ddileu'r adran sy'n gwahardd Channel 4 rhag gwneud ei rhaglenni ei hun. Mae statws presennol Channel 4 fel 'cyhoeddwr-ddarlledwr', sy'n comisiynu ei holl gynnwys o sector annibynnol y DU, wedi bod yn hanfodol i dwf y sector, gan gynnwys yng Nghymru. Er bod Llywodraeth y DU yn cynllunio amddiffyniadau, gan gynnwys Cwota Cynhyrchu Annibynnol uwch ar gyfer Channel 4 na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, dylid ysgrifennu'r bwriad hwn yn glir yn y Bil.

Mae TAC felly yn galw am ofyniad newydd i Channel 4 gomisiynu nifer 'sylweddol' o raglenni o'r sector annibynnol. Dylai fod gofyniad penodol hefyd i Channel 4 gynnal ei wariant cynnwys cyfredol o 50% y tu allan i Lundain, sydd ar hyn o bryd yn wirfoddol.

Y Mesur Cyfryngau Drafft

Mae barn lawn TAC ar y Mesur Cyfryngau Drafft, fel y'i cyflwynwyd i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ein gwefan. Mae'r rhain nid yn unig yn cynnwys y pwyntiau sy'n ymwneud â Channel 4, fel y nodwyd uchod, ond hefyd ein cefnogaeth i'r mesurau i gynyddu amlygrwydd sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau digidol a setiau teledu clyfar, i sicrhau bod cynnwys PSB y DU, gan gynnwys S4C, yn hygyrch i wylwyr y DU. Mae TAC hefyd yn cefnogi mesurau eraill i gryfhau S4C yn yr oes ddigidol, a gynigiwyd yn wreiddiol yn yr Adolygiad Annibynnol o S4C yn 2018.

Pwyllgor Materion Cymreig yn clywed gan TAC ar Ddarlledu yng Nghymru

Ar 7 Mehefin, ymddangosodd Cadeirydd TAC Dyfrig Davies gerbron **Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin** fel rhan o'i ymchwiliad ar 'Ddarlledu yng Nghymru'. Ymhlith pynciau eraill, soniodd Mr Davies am bwysigrwydd canllawiau Ofcom ar raglenni y tu allan i Lundain. Mae TAC yn teimlo y gellir gwneud mwy i gefnogi cwmnïau y mae eu gwreiddiau yng Nghymru ac sydd mewn sefyllfa i ddod â syniadau, straeon, talent a safbwyntiau gorau'r genedl i gynulleidfaoedd, yn ogystal â chynhyrchu rhaglenni o ansawdd uchel wrth fwydo'r holl fanteision yn ôl i economi Cymru. Gellir dod o hyd i'r sesiwn dystiolaeth lawn, a oedd hefyd yn cynnwys cwmnïau Yeti TV a Cwmni Da, yma. Yn dilyn hynny, mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Ofcom ar y mater ac wedi ei godi yn ei sesiwn gyda'r Gweinidog Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Y Gwir Anrhydeddus Syr John Whittingdale MP OBE.

TAC, Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU ac S4C yn cynnal digwyddiad 'Concro'r Byd' i gynyddu gweithgarwch rhyngwladol y sector cynhyrchu yng Nghymru

Ym mis Mawrth fe wnaeth Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU weithio mewn partneriaeth â TAC ac S4C i gynnal digwyddiad i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i gwmnïau cynhyrchu sydd eisiau gweithio'n fwy rhyngwladol, er enghraifft drwy werthu rhaglenni a fformatau dramor, neu drwy gymryd rhan mewn cyd-gynyrchiadau a chomisiynau tramor.

Gyda nifer y cyfleoedd i weithio gyda darlledwyr tramor a llwyfannau ffrydio o hyd ar lefelau da, roedd hwn yn gyfle i ddysgu am sut i ymgysylltu â nhw a pha gefnogaeth sydd ar gael. Clywodd cynulleidfa lawn yn y digwyddiad yng Nghaerdydd gan TAC, Yr Adran Busnes a Masnach, S4C yn ogystal â chwmnïau cynhyrchu blaenllaw, dosbarthwyr a'r BFI.

TAC yn parhau i helpu i adeiladu rhwydweithiau hyfforddi ledled Cymru

Ers 2019 mae partneriaeth hyfforddi TAC gyda S4C wedi cyflenwi 97 o gyrsiau, gyda chyfanswm o 1,421 o gofrestriadau gan staff cwmnïau cynhyrchu a gweithwyr llawrydd. Mae TAC hefyd yn gweithio gyda sefydliadau sydd wedi derbyn cyllid gan Gronfa Sgiliau Creadigol Cymru Greadigol, yn ogystal â gyda Cult Cymru, sydd wedi derbyn ail rownd o gyllid ar gyfer ei Gynllun Hwylusydd Lles. Mae TAC hefyd yn cefnogi Rhaglen Busnes ac Arweinyddiaeth Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol NFTS Cymru.

Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023

Mae'n bleser gan TAC gynnal chwe digwyddiad yn Sinemaes gyda'n haelodau gwmnïau yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, sy'n cael ei chynnal rhwng 5-12 Awst. Mae hyn yn cynnwys dangosiad rhaglenni a sesiwn holi ac ateb gyda'r cwmnïau Darlun, Telesgop a Chwarel. Bydd Rondo Media yn cynnal dau weithdy: *Rownd a Rownd – o'r sgript i'r sgrin, a Sgorio – Dysgu crefft Sylwebaeth*. Hefyd bydd Cwmni Da, ynghyd â TAC ac S4C, yn rhoi cyflwyniad ar gynhyrchu cynaliadwy ac egwyddorion cynllun BAFTA albert. Mae Cynghrair Sgrin Cymru wedi cydlynu rhaglen yr wythnos gydag ystod o weithgareddau, dangosiadau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â ffilm a theledu a'r sector creadigol ehangach.

TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) yw cymdeithas aelodaeth cwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Mae tua 50 o gwmnïau yn y sector, yn amrywio o unig fasnachwyr i rai o brif chwaraewyr y diwydiant cynhyrchu teledu yn y DU. Maent yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky yn ogystal â darlledwyr masnachol eraill a darparwyr cynnwys. Maent hefyd yn ymwneud â nifer o gyd-gynyrchiadau rhyngwladol ac yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu ar wasanaeth Cymraeg S4C. Mae aelodau TAC hefyd yn weithgar wrth gynhyrchu cynnwys radio ar gyfer y BBC ac eraill.
Mwy ar www.tac.cymru.
Cyswllt: Sioned Haf Roberts, Rheolwr Cyffredinol sionedhaf.roberts@tac.cymru